



Cyfarfod Blynyddol
Cymdeithas Grefyddol y
Cyfeillion ym Mhrydain

Trefnu Cyfarfod Addoli gyda phobl o Eglwysi eraill a Chrefyddau eraill

Mae Cyfarfodydd Addoli'r Crynwyr yn cynnig cyfle arbennig fel ffurf o addoli sy'n dderbyniol i bobl o enwadau a chrefyddau eraill. Gan nad yw'n cynnwys gweddïau gosod na datganiadau gosod, mae'n fforwm niwtral lle gall pobl addoli gyda'i gilydd. Er hynny, wrth groesawu nifer fawr o bobl na fuont erioed mewn Cyfarfod Addoli Crynwyr, mae rhaid wrth ragor o baratoi nag y mae ei angen ar gyfer Cyfarfod arferol. Ceir yn y daflen hon rai syniadau ynghylch y trefniadau ymarferol yn ogystal â rhai syniadau eraill y gellir eu cynnwys mewn taflen i'w dosbarthu i bawb sy'n dod i'r cyfarfod.

Syniadau ynghylch y trefniadau ymarferol

Paratowch yr ystafell yn briodol ar gyfer y nifer a ddisgwylir. Trefnwch ar gyfer lluniaeth a blodau yn ôl yr angen.

Mae angen digon o Grynwyr yno i groesawu pobl wrth iddynt gyrraedd ac i sgwrsio â'r rhai sydd, o bosibl, yn bryderus ynghylch pa beth i'w ddisgwyl.

Bydd yn rhaid dweud wrth bobl fel maent yn cyrraedd nad oes seddau arbennig ac y cânt eistedd mewn unrhyw le.

Dylid annog rhai Crynwyr i eistedd yn ddistaw yn Ystafell y Cyfarfod yn gynnar, fel na ddaw newydd-ddyfodiaid i ystafell wag, ac fel y cânt ddilyn esiampl y rhai sydd yno eisoes.

Dylai Crynwyr fod yn gyfrifol am gloi'r Addoli ar yr adeg benodol, a dylai eistedd gyda Chrynwr arall, fel nad bo un o'r newydd-ddyfodiaid yn gorfod cynnig ysgwyd llaw i gloi'r cyfarfod

Ni ddylai'r Crynwyr yn y cyfarfod deimlo bod rhaid wrth sawl eitem o weinidogaeth lafar. Gobeithiwn y bydd y rhai sydd yno yn gwerthfawrogi ansawdd y distawrwydd;

mae gormod o weinidogaeth lafar yn gweithio yn erbyn hyn. Er hynny, posibilrwydd arall yw cyfarfod sydd, i ryw raddau, yn dilyn rhaglen.

Bydd angen ystyried pa ddeunydd ysgrifenedig a adewir ar y seddau yn y Tŷ Cwrdd. Byddai copïau o Cynghorion ac Ymholiadau/Advices and Queries a Quaker Faith and Practice yn briodol. Mewn Cyfarfod cydenwadol, gellir trefnu bod copïau o'r Beibl ar gael. Os mai digwyddiad gyda phobl o grefyddau eraill ydyw, a ddylai'r Beibl fod yn amlwg ai peidio? Efallai gellid trefnu bod deunydd darllen ar gael o bob un o'r crefyddau sy'n debyg o gael ei chynrychioli, ond dylid holi cynrychiolwyr y crefyddau eraill ymlaen llaw.

Os cynhyrchir taflen sy'n egluro'r drefn, gellir gosod copi ar bob sedd a/neu roi un i bawb wrth iddo gyrraedd. Yn wir, gellir dosbarthu copïau ymlaen llaw i'r rhai sydd wedi dangos diddordeb mewn dod i'r cyfarfod. Fel arall, efallai yr hoffech ddefnyddio'r daflen Ai hwn yw eich tro cyntaf mewn Cyfarfod Crynwyr?/ Your first time in a Quaker Meeting?, a hefyd cael rhywun yn cyhoeddi, yn gynnar yn y cyfarfod, yr hyn sy'n mynd i ddigwydd. Ystyriwch ba beth y dylech ei wneud os bydd rhai o'r bobl yn y cyfarfod â nam ar eu golwg, neu os cânt hi'n anodd darllen neu ddeall iaith neu ieithoedd y Cyfarfod.

Cofiwch, os bydd rhywun yn codi ar ddechrau'r Cyfarfod i egluro pa beth fydd yn digwydd, bydd hyn yn torri ar y distawrwydd sy'n datblygu yn y Cyfarfod. Gan ddibynnu ar gyd-destun y Cyfarfod, fe all fod angen i rywun wneud hyn, ond os gellir defnyddio taflenni yn lle hynny, ni thorrir ar y distawrwydd.

Ceir isod rai syniadau a allai fod yn rhan o'ch taflen ragarweiniol. Mae'n annhebyg iawn y bydd arnoch eisiau ei defnyddio yn ei chrynswth, ond yn ddelfrydol fe'i hail-ysgrifennid i gyd-fynd â'r Cyfarfod arbennig sydd gennych mewn golwg. Bod yn gwyno yw'r nod, ond byddwch yn ddigon cynhwysfawr fel nad adewir pobl â chwestiynau heb eu hateb, a allai greu pryder.

Beth yw Cyfarfod Addoli?

Sail Cyfarfod Crynwyr yw distawrwydd. Mae'n ddistawrwydd o aros disgwylgar. Gall y distawrwydd bara am gryn amser, efallai drwy gydol y cyfarfod. Nid yw hynny'n golygu nad oes dim byd yn digwydd. Mae pawb ohonom yn ceisio dod yn nes at ein gilydd ac at Dduw wrth inni gael ymdeimlo ag ysbryd llonydd y Cyfarfod.

Nid ydym yn addoli ar ein pennau ein hunain. Ceisiwn ddod yn ymwybodol o'r rhai sydd wedi ymgasglu o'n cwmpas, sy'n uno i'r un diben, fel y daw'r aros a'r gwranddo yn weithred o rannu.

Gall pob un addoli'n ddistaw yn ei ffordd ei hun, ond mae cydaddoli'n brofiad grymus sy'n wahanol i brofiad o weddi a myfyrdod preifat.

Dechreuau'r Cyfarfod cyn gynted ag y bo'r unigolyn cyntaf wedi eistedd yn y distawrwydd. Mae'n para am awr (neu am gyhyd ag a bennwyd ar gyfer y Cyfarfod arbennig hwn) ac wedyn bydd y bobl a benodwyd i gloi'r cyfarfod yn ysgwyd dwylo.

Beth fyddwn ni'n ei wneud yn y Cyfarfod?

Eisteddwn fel y bôm yn gysurus, heb boeni os bydd rhaid inni symud yn ein sedd o dro i dro. Plygwch eich pen os dymunwch. Caewch eich llygaid neu eu cadw'n agored. Eisteddwn i lawr ac ymlacio.

Mae rhai'n ei chael hi'n hawdd ymlacio yn y distawrwydd, ac felly fynd i ysbryd y Cyfarfod. Bydd y distawrwydd anarferol, pethau o'r tu allan sy'n tynnu sylw, neu feddyliau crwydrol, yn tarfu ar eraill.

Peidiwch â phoeni ynghylch hyn; yr ydym i gyd yn ei chael hi'n anodd ymdawelu weithiau, ond ceisiwn ddechyd drosodd a throsodd i'r distawrwydd, lle gellir adnabod presenoldeb Duw. Ceisiwch, pe na bai ond am gyfnodau byrion, ymdawelu mewn corff, meddwl ac ysbryd. Dewch â pha beth bynnag sy'n pwysu ar eich meddwl i'r Cyfarfod. Gall fod yn adeg o fewnwelediad, datguddiad, iachâd neu dawelwch.

Distawrwydd ynteu llefaru?

Gellir cynnal Cyfarfod Addoli mewn distawrwydd llwyr. Bydd pob un yn cyfrannu'n ddistaw, ac mae'r cyfraniad hwn yn bwysig. Weithiau bydd ambell un yn teimlo bod galw arno i wneud cyfraniad ar lafar, neu 'gweinidogaeth' chwedl y Crynwyr. Ni ddylid torri ar y distawrwydd ar chwarae bach, ac yn hanesyddol bu'r Crynwyr yn 'crynu o flaen Duw' cyn llefaru (ac felly'n cael eu llysenw). Er hynny, gall cyfraniadau llafar i'r Cyfarfod gyfoethogi addoliad pobl eraill; os teimlwch gynhyrfiad i lefaru, os gwelwch yn dda, sefwch a gwnewch eich cyfraniad yn glir ac yn gryno. Nid yw hyn yn gyfle i draddodi anerchiad na phregeth nag i gyfleu'ch safbwynt eich hunain. Os teimlwch y dylech 'weinidogaethu', gofynnwch i chi'ch hun a ydych mewn gwirionedd yn teimlo bod hyn er lles y Cyfarfod i gyd ynteu'n fwy er eich lles eich hunan.

Mae'n help mawr cael cyfnod clir o ddistawrwydd am sawl munud rhwng cyfraniadau llafar, er mwyn i eraill fyfyrion ar bob cyfraniad. Nid dadl neu drafodaeth yw Cyfarfod Addoli, a dylid cofio hyn os byddwch yn ymateb i weinidogaeth lafar flaenorol. Os gwelwch yn dda, peidiwch â llefaru fwy nag unwaith yn ystod y Cyfarfod. Distawrwydd yw'r peth normal yng Nghyfarfodydd y Crynwyr, ond gall rhywfaint o weinidogaeth ar lafar fod yn werthfawr iawn.

Taflen gan Bwyllgor y Crynwyr dros Gysylltiadau â Christnogion a Chrefyddau Eraill/Quaker Committee for Christian and Interfaith Relations (QCCIR). Gall y QCCIR roi cyngor a chefnogaeth i Grynwyr a Chyfarfodydd sy'n dymuno ehangu a dyfnhau eu hymwneud ag eglwysi a chrefyddau eraill.

Cysylltwch â : QCCIR c/o Friends House, 173 Euston Road, London NW1 2BJ.

E-bost: marigoldb@quaker.org.uk

Ffôn: 020 7663 1060